***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1786

# Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur)(Cymru) 2000

## RHAN II

## RHOI BATHODYNNAU, EU PARHAD, A'U DIDDYMU

### Bathodynnau yn lle rhai a gollwyd ayb

**7.**—(1) Pan fydd bathodyn person anabl ("y bathodyn gwreiddiol") wedi ei golli, wedi ei ddwyn neu wedi ei ddinistrio, neu wedi ei ddifrodi neu wedi colli ei liw gymaint fel nad yw'n ddigon ddarllenadwy pan arddangosir ef ar gerbyd modur, gellir rhoi bathodyn yn lle hwnnw gyda'r gair "dyblygiad" wedi ei farcio ar ei flaen.

(2) Bydd bathodyn yn lle un arall yn ddilys o'r dyddiad y'i rhoddir hyd nes y byddai'r bathodyn gwreiddiol wedi peidio â bod yn ddilys.